# Clefyd y thyroid: asesu a rheoli

20 Tachwedd 2019

## *Clefyd y thyroid: y gofal y dylech ei ddisgwyl*

Mae clefyd y thyroid yn effeithio ar chwarren fach yn y gwddf a elwir yn chwarren y thyroid. Mae thyroid 'gorweithredol' yn cynhyrchu gormod o hormon thyroid. Nid yw thyroid 'tanweithredol' yn cynhyrchu digon. Gall y thyroid chwyddo hefyd. Gelwir hyn yn 'wen'.

Mae cyflyrau'r thyroid yn gyffredin iawn. Gallant achosi symptomau gwahanol a gallant fod yn anodd i'w diagnosio. Mae'r rhan fwyaf o gyflyrau'r thyroid yn gwella gyda thriniaeth, ond gallai mwy nag un driniaeth fod yn addas yn dibynnu ar achos y broblem.

Rydym am sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl sydd â chlefyd y thyroid drwy sicrhau'r canlynol:

- bod ganddynt wybodaeth am glefyd y thyroid, gan gynnwys achosion a thriniaethau posibl
- y cynigir y profion, y driniaeth a'r gofal dilynol cywir iddynt ar gyfer eu cyflwr penodol
- pan fo mwy nag un driniaeth addas, eu bod yn cael y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau am yr opsiynau gwahanol
- bod ganddynt wybodaeth am unrhyw feddyginiaeth thyroid y maent yn ei chymryd.

## *Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd*

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich meddyg roi gwybodaeth glir i chi am fanteision a risgiau triniaethau, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau, ystyriwch:

- Beth yw manteision a risgiau pob triniaeth – a yw rhai o'r risgiau yn peri mwy o bryder i chi na rhai eraill?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Pa mor dda y mae pob triniaeth yn debygol o weithio a pha effeithiau y gallent eu cael?
- Beth fydd yn digwydd os nad ydych am gael triniaeth?

Efallai y bydd angen i chi drafod gwahanol opsiynau triniaeth, yn dibynnu ar achos y problemau gyda'ch thyroid. Er enghraifft, os oes gennych thyroid gorweithredol, efallai y cynigir cwrs o gyffuriau gwrth-thyroid, iodin ymbelydrol (sy'n achosi i chwarren y thyroid leihau) neu lawdriniaeth i dynnu'r chwarren i chi. Gallai un neu fwy o'r triniaethau hyn fod yn addas, yn dibynnu ar eich sefyllfa.

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich meddyg.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Ceir rhagor o wybodaeth am glefyd y thyroid ar wefan y GIG, gan gynnwys:

- Thyroid gorweithredol
- Thyroid tanweithredol
- Wen

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Cymdeithas Thyroid Prydain, 01423 810093
- Ymddiriedolaeth y Thyroid, 020 3983 0877

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Lluniwyd y canllaw hwn ar y cyd â phobl y mae clefyd y thyroid wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3596-3



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.